**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

David Rees, Cadeirydd Pwyllgor Senedd y Dyfodol
Drwy e-bost

Chwefror 2025

**Cworwm ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor**

Annwyl David,

Mewn ymateb i'r llythyr a anfonwyd gennych ar ran Pwyllgor Senedd y Dyfodol, dyddiedig 27 Tachwedd 2024, trafododd Fforwm y Cadeiryddion y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau cworwm ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025.

Trafododd y Cadeiryddion y ddarpariaeth bresennol, fel y'i nodir yn Rheolau Sefydlog 17.31 a 17.32, gan gytuno y dylai'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor aros yr un peth ar gyfer y Seithfed Senedd, sef tri Aelod neu draean o aelodau'r pwyllgor, pa un bynnag yw'r mwyaf.

Nodwyd nad oes gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU ofyniad yn ymwneud â chynrychiolaeth wleidyddol sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth a nodir ar hyn o bryd yn Rheol Sefydlog 17.32, sef y dylai mwy nag un grŵp gwleidyddol gael ei gynrychioli ar ddechrau cyfarfod. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw deimlad cyffredinol na ddylid cadw'r ddarpariaeth hon.

Cafodd yr egwyddorion sy'n sail i'r gofyniad cworwm presennol eu hailddatgan – sef yr angen i sicrhau bod ystod eang o leisiau a safbwyntiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli yng ngwaith y pwyllgorau, a phwysigrwydd cadw hyder y cyhoedd yng ngwaith y pwyllgorau, a allai gael ei niweidio fel arall gan lefelau isel o bresenoldeb neu bresenoldeb sy'n anghynrychioladol.

Wrth drafod y materion hyn, awgrymodd rhai o'r Cadeiryddion y byddai modd ystyried yn y dyfodol a ddylai'r un ddarpariaeth cworwm fod yn gymwys i waith craffu polisi a gwaith craffu deddfwriaethol, neu a ddylid pennu lefelau gwahanol o ddarpariaeth. Unwaith eto, nid oedd unrhyw gytundeb cyffredinol ar y pwynt hwnnw.

Cydnabuwyd y ffaith bod y gofyniad cworwm presennol yn gallu arwain at fwy o broblemau ymarferol i'r pwyllgorau hynny sydd â llai o aelodau (er enghraifft, y pwyllgorau hynny sydd â phedwar neu bum aelod, yn hytrach na'r nifer arferol o aelodau, sef chwech).

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

Er y cytunwyd na ddylai'r pwynt hwn effeithio ar y gofyniad cworwm, cytunwyd hefyd y gallai ddylanwadu ar drafodaethau yn y dyfodol am faint y pwyllgorau.

Yn fwy cyffredinol, roedd Fforwm y Cadeiryddion yn awyddus i gadarnhau pwysigrwydd mynegi’n glir i’r Aelodau y disgwyliad bod gwaith y pwyllgorau yn cael ei flaenoriaethu.

Rwy’n gobeithio y bydd y pwyntiau hyn o gymorth i Bwyllgor Senedd y Dyfodol, o ran llywio ei waith ar drothwyon. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi os oes gan y Pwyllgor unrhyw gwestiynau pellach lle byddai barn Fforwm y Cadeiryddion yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

Elin Jones AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English